LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Ymddiriedolwyr - Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Sesiwn Agored |
| Dyddiad: | Dydd Gwener, 26 Ionawr 2024 rhwng 11.00 – 13.00 |
| Lleoliad: | Ystafell y Cyngor ac ar-lein |

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Bwrdd:** Ashok Ahir (Llywydd a Chadeirydd)
Andrew Evans (Is-lywydd)
Gronw Percy (Trysorydd)
Lydia Rumsey
Janet Wademan
Gwenllian Lansdown Davies
Hannah Lindsay
Anwen Jones
David Hay
Susan Davies
Lee Yale-Helms
Quentin Howard
Andrew Cusworth
John Allen
Elaine Treharne

---

**Tîm Gweithredol:** Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau
Owain Roberts, Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
Emyr Evans, Cyfarwyddwr Cyllid (dros-dro)

---

**Hefyd yn bresennol**: Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol
Mary Ellis, Llywodraeth Cymru
Prys Dafydd, Llywodraeth Cymru
Rhodri Llwyd Morgan, darpar Brif Weithredwr

---

**Cofnodydd**: Carol Edwards (Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol

---

**Ymddiheuriadau**: Dim ymddiheuriadau

---

**Adran 1: Materion Cyffredin**
**1.1 Croeso'r Cadeirydd a sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Rhodri Llwyd Morgan, darpar Brif Weithredwr, oedd yn ymuno â'r cyfarfod fel sylwedydd. Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y sesiwn agored.

**1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda**

Datganodd y staff oedd yn bresennol fudd yn eitem 3.3 fel aelodau gweithredol o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

**1.3 Cofnodion cyfarfod 24 Tachwedd a materion yn codi nad ydynt ar yr agenda**

Derbyniwyd cofnodion sesiynau 24 Tachwedd yn amodol ar gynnwys y cymal canlynol o dan 5.2 yng nghofnodion yr ail sesiwn gaeedig;

*Tynnwyd sylw'r Bwrdd gan y Cadeirydd at y ffaith os na fyddai'r archwiliad ar drydydd adroddiad CIPFA'n cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, yna mae'n bosib na fydd digon o wybodaeth archwilio gan yr archwilwyr mewnol i ddarparu Barn ac Adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol cadarn ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.*

**Cyber Essentials –** yn dilyn cwblhau'r hunan asesiad, mae'n bleser cyhoeddi fod y Llyfrgell wedi llwyddo yn yr achrediad Cyber Essentials; byddwn yn parhau gyda Cyber Essentials+ yn y dyddiau nesaf ble bydd yr achredwyr yn asesu a chadarnhau'r hunan asesiad.

**Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol 2022/23** - ni fydd modd cwrdd â'r terfyn amser o ffeilio'r Cyfrifon Blynyddol i'r Comisiwn Elusennau ar 31 Ionawr 2024, a hynny oherwydd anawsterau staffio ar ran Archwilio Cymru. Mae prif gyswllt y Llyfrgell wedi gadael am swydd arall a chyswllt newydd wedi ei benodi, ac mae ef wedi dwyn sylw at faterion newydd yn y Cyfrifon sydd angen eu datrys. Mae rheolwr archwilio newydd hefyd wedi ei benodi ar gyfer y Llyfrgell oherwydd salwch hir dymor y rheolwr blaenorol, ac mae hyn i gyd wedi effeithio ar amserlen Archwilio Cymru i gwblhau'r gwaith. Gobeithir bydd y Cyfrifon wedi eu harwyddo erbyn diwedd mis Chwefror.

Ni fydd unrhyw gosb am fethu'r terfyn amser, ond cytunwyd y dylai'r Trysorydd a Chyfarwyddwr Cyllid anfon llythyr at Archwilio Cymru yn mynegi anfodlonrwydd a phryder ynglŷn â'r oedi yn archwilio cyfrifon y Llyfrgell.

**Rheoliadau** - yn dilyn y cyfarfod diwethaf, gwiriwyd y cymal ynglŷn â Phwyllgor Swyddogion yn y Rheoliadau i roi eglurder ar natur cyfarfodydd Swyddogion, ac ychwanegwyd cymal ynglŷn i egluro natur cyfarfodydd eraill rhwng y Swyddogion a'r Tîm Gweithredol.

**2. Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Adroddodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ar faterion oedd wedi digwydd ers iddo baratoi'r adroddiad ysgrifenedig.

Lansiwyd cynllun diswyddo gwirfoddol ar 24 Ionawr, a chyfarfu gyda staff i egluro fod hwn yn gyfnod hynod o heriol, ac mae dyma'r rheswm dros ruthro i gyflwyno cynllun o'r fath, a hefyd y ffaith fod

Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoi cymorth ariannol petai'r diswyddiadau yn cwblhau cyn 31 Mawrth 2024. Os na fydd y cynllun diswyddo gwirfoddol yn llwyddiannus yn denu ceisiadau digonol, yna bydd rhaid i'r Llyfrgell ystyried diswyddiadau gorfodol.

Yn dilyn gwerthu tŷ yn Llundain oedd wedi ei adael i'r Llyfrgell fel cymynrodd, disgwylir derbyn £1.2m i'r cronfeydd preifat. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi derbyn cymynrodd arall wythnos yma o gelf fodern, llyfrau prin, a nifer o lawysgrifau llenyddol gan y diweddar Ken Owen, Marian-glas Ynys Môn, fydd yn cyfoethogi'r casgliadau ymhellach.

Datganodd y Dirprwy Weinidog yn y Pwyllgor Diwylliant y byddai newidiadau i lythyr cylch gorchwyl y Llyfrgell; pan fydd y Llyfrgell wedi derbyn y llythyr diwygiedig, bydd rhaid edrych ar ein cynllun strategol yng nghyd-destun y newidiadau.

Ceisiadau PhD - diolchodd Owain Roberts i David Hay am ei gymorth yn asesu'r ceisiadau; disgwylir y bydd 4 cais yn cael eu hariannu, ac mi fydd y Llyfrgell yn rhan o'r pwll cyntaf. Mi fydd Owain yn cylchredeg y datganiad swyddogol unwaith y bydd wedi ei gyhoeddi. Ategodd y Cadeirydd ei ddiolch i David Hay am ei gymorth gyda'r prosiect yma.

**Adran 3: Materion Strategol**

**3.1 Proses ddisgyblu ac adolygiadau diweddar – gwersi a ddysgwyd**

Mi fydd yr eitem yma'n cael ei gario drosodd i gyfarfod yn y dyfodol.

**3.2 Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a diweddariad Fourth Street**

Mae'r Llyfrgell wedi penodi cwmni Beaufort i wneud ymchwil ar gynulleidfaoedd; byddant yn cysylltu gyda 1,500 o bobl ar draws Cymru sydd yn defnyddio'r Llyfrgell a rhai sydd ddim ei defnyddio, ac mi fydd grwpiau ffocws yn cael eu trefnu ynghyd ag ymchwil i ddefnydd ffisegol/defnydd ar-lein. Disgwylir iddynt gyflwyno adroddiad ym mis Mai bydd yn gosod ffordd o weithredu dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn rhoi gwaelodlin a gwell cyfeiriad i waith y Llyfrgell. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn £48k o'r Shared Prosperity Fund ar gyfer cam nesaf gwaith Mather & Co ar yr adeilad, ac mi fydd tendr yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Chwefror ar gyfer y gwaith. Mae tendr arall ar waith ar gyfer sut mae pobl yn cyrraedd/dod fewn i'r Llyfrgell.

**3.3 Cynllun Pensiwn – diweddariad ar y sefyllfa gyfredol**

Yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf, diolchodd y Cadeirydd i Andrew Evans am gytuno i ymaelodi â'r Bwrdd Cynllun Pensiwn (BCP).

Nododd cadeirydd y BCP, Lee Yale-Helms, fod y Bwrdd yn y broses o benodi ymddiriedolwr annibynnol i'r Bwrdd Cynllun Pensiwn, tra bod tymhorau aelodau eraill wedi eu hymestyn i ddarparu gwytnwch a pharhad i'r BCP.

Mae'r ddogfen ymgynghori wedi ei chwblhau, ac eithrio un mater sydd angen ei ddatrys. Mi fydd cadeirydd y BCP, Trysorydd ac Emyr Evans yn cyfarfod gyda Linklaters i drafod hyn.

Ar gais y cadeirydd, cytunodd Lee Yale Helms a'r Trysorydd i anfon drafft o'r ddogfen ymgynghori fel mae'n sefyll, at y ddau swyddog arall, sef Ashok Ahir ac Andrew Evans.

**3.4 Pwyllgorau'r Bwrdd**

Tynnwyd sylw'r aelodau at y bylchau presennol ar bwyllgorau'r Bwrdd a gofynnwyd am enwebiadau i'w llenwi i sicrhau bod cworwm ar gael ymhob cyfarfod pwyllgor.

Mae angen 2 aelod i ymuno â'r pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, 1 aelod i ymuno â'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, ac un i ymuno â'r Panel Adeiladau. Nododd y cadeirydd bod cyfle hefyd i aelodau symud pwyllgorau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dylid anfon datganiadau o ddiddordeb at y Cadeirydd a'r clerc o fewn y pythefnos nesaf.

**Adran 4: Materion Corfforaethol**

**4.1 Adroddiadau Ariannol**

**4.1.1 Cyfrifon rheoli Rhagfyr 2023**

Cyflwynwyd y cyfrifon rheoli gan Emyr Evans.

Mae'r gyllideb yn parhau i ddangos diffyg, ond mae hwn yn llai nag a ragwelwyd yn flaenorol a'r gobaith yw y bydd y gyllideb mewn sefyllfa ble bydd wedi adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Nododd yr aelodau y byddai ymarfer cyllido "zero based" yn werthfawr, a bod y Bwrdd wedi cytuno i gyllido adnoddau ychwanegol i weithredu hyn.

**4.1.2. Ymrwymiadau'r Cronfeydd Preifat**

Cyflwynwyd y daenlen gan Emyr Evans, oedd yn gosod allan ymrwymiadau'r cronfeydd preifat rhwng 2023/24 a 2029/30. Diolchwyd i Emyr am ei waith ar hyn, gan fod y wybodaeth yma'n ddefnyddiol iawn i'r aelodau.

**4.2 Cydymffurfiaeth a Risg**

Dim materion i'w hadrodd.

**Adran 5: Adroddiadau o Bwyllgorau**

**5.1 Cofnodion drafft Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant 14.11.23**

Tynnwyd sylw'r aelodau at y materion canlynol gan y Cadeirydd, Ashok Ahir;

- Dangosyddion perfformiad - bydd y rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfod chwarterol gyda Llywodraeth Cymru yn eu cyfarfod ar 29 Ionawr.

- Cynllun Gweithredol 2023/24 - bydd drafft o'r cynllun gyda beth sydd wedi ei gyflawni yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf ar 22 Mawrth 2024
- Hyfforddiant a pherfformiad Ymddiriedolwyr - mae'r cadeirydd yn awyddus iawn i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr aelodau, a gwnaeth annog pawb i anfon syniadau am unrhyw hyfforddiant maent am ei dderbyn ato cyn gynted â phosib.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael cyflwyniadau chwarterol gan staff y Llyfrgell ar feysydd gwaith penodol ar gychwyn cyfarfodydd y Bwrdd i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth yr aelodau o waith craidd y Llyfrgell. Cytunwyd i gael cyflwyniad ar waith estyn allan fel un o'r rhai cyntaf - dyddiad i'w benderfynu. Cytunwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd dderbyn dogfen yn gosod allan pa weithgareddau sy'n cael eu hadnabod fel rhai statudol yn y siarter a pha rhai sydd ddim

Awgrymwyd y medrai'r cyflwyniadau yma i wahanol feysydd gwaith/adrannau ffurfio rhan o Lawlyfr yr Ymddiriedolwyr, a bydd y Clerc yn edrych i ddatblygu hyn ymhellach dros y misoedd nesaf.

Cytunwyd i osod datblygu sgiliau/trosglwyddo sgiliau ar agenda cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 27 Chwefror, ac i ymchwilio am gyrsiau sydd ar gael ar gyfer ymddiriedolwyr newydd.

**Adran 6: Unrhyw fater arall**

**Gwasanaeth archwilio mewnol**
Adroddodd y Clerc fod y Llyfrgell, yn dilyn proses agored a thryloyw, wedi penodi RSM fel archwilwyr mewnol y Llyfrgell o fis Ebrill 2024 am gyfnod o 3 mlynedd i olynu'r archwilwyr presennol, sef gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru. Aelodau'r panel ar gyfer asesu'r tendrau oedd Gronw Percy, Huw Lloyd Jones (aelod annibynnol Archwilio, Risg a Sicrwydd) a Pedr ap Llwyd. Ni fu cadeirydd y pwyllgor, Janet Wademan yn rhan o'r broses, oherwydd gwrthdaro buddiant canfyddedig.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod hunan asesiad o'r pwyllgor wedi ei gwblhau, a bod nifer o sylwadau adeiladol wedi eu gwneud. Bydd y cadeirydd yn ystyried y canlyniadau hyn ac yn penderfynu sut i weithredu yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Gadawodd yr aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol yn y fan yma.

**Cyfarfodydd y Bwrdd -mynychwyr**
Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr undebau llafur yn dilyn bod cyfarfod o'r Bwrdd i'w diweddaru ar faterion a drafodwyd, gan bwysleisio nad yw hyn yn digwydd mewn sefydliadau eraill. Mae hyn yn dilyn gofyn iddynt hwy ac aelodau'r Grŵp cyflawni beidio mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd o hyn allan.

Heblaw am yr Amgueddfa, y Llyfrgell yw'r unig sefydliad yn y sector sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd fynychu sesiynau agored o gyfarfodydd y Bwrdd ac mae hyn wedi ei nodi yn y Rheoliadau. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cael sgwrs gyda'r Dirprwy Weinidog a gofyn iddi a oedd polisi'n bodoli ar draws y cyrff cyhoeddus ynglŷn â hyn, ond roedd wedi nodi nad oedd.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn dryloyw yn cyhoeddi cofnodion ei sesiynau agored ar ei gwefan.

Cytunwyd i weithredu fel a ganlyn o hyn allan;

- Gofyn i aelodau'r cyhoedd oedd yn dymuno mynychu sesiynau agored cyfarfodydd y Bwrdd roi gwybod i'r Clerc 48 awr ymlaen llaw o'i bwriad i fod yn bresennol
- Gwahodd un cynrychiolydd undeb i sesiynau agored bob cyfarfod o'r Bwrdd
- Cynnal y sesiwn agored yn gyntaf, i'w ddilyn gan sesiwn gaeedig, ble mae angen hynny, ar gyfer Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol yn unig

**Diwedd cyfnod**

Dyma gyfarfod olaf Gwenllian Lansdown Davies fel Ymddiriedolwr, wrth i'w chyfnod fel Ymddiriedolwr ddirwyn i ben ar 29 Chwefror 2024. Cyflwynwyd rhodd iddi ar ran y Llyfrgell gan y Llywydd., wrth iddo ddiolch iddo am ei phresenoldeb a'i chyfraniad gwerthfawr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a hefyd ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

**Sesiwn Gaeedig - crynodeb o faterion a drafodwyd**

1. Cymeradwyo penodiad Rhodri Llwyd Morgan fel Prif Weithredwr nesaf y Llyfrgell
2. Cymeradwyo dyfarniad cyflog 2023/24
3. Cyllideb 2024/25
4. Materion Cyfreithiol

| **PWYNTIAU I'W GWEITHREDU** /MATERION ANGEN SYLW PELLACH | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Cyfrifoldeb** | **Erbyn** | **Wedi ei gwblhau** |
| Anfon llythyr at Archwilio Cymru yn mynegi pryder ynglŷn â'r arafwch yn archwilio'r Cyfrifon Blynyddol | Trysorydd ac Emyr Evans | Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd | Diweddariad llafar yng nghyfarfod 22.03.24 |
| Cylchredeg datganiad swyddogol ynglŷn â'r cynllun PhD | Owain Roberts | Pan fydd cyhoeddiad wedi ei wneud | Aros am y cyhoeddiad |
| Cylchredeg drafft o'r ymgynghoriad cynllun pensiwn at Ashok Ahir ac Andrew Evans | Lee Yale-Helms | Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd | Aros i dderbyn yr ymgynghoriad |
| Datganiadau o ddiddordeb i ymuno â phwyllgorau'r Bwrdd i'w hanfon at y Cadeirydd a'r Clerc | Ymddiriedolwyr | 9 Chwefror 2024 | ✓ |
| Cynllun Gweithredol 2023/24 i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf | Owain Roberts | 22 Mawrth 2024 | Gohiriedig i ddyddiad hwyrach |
| Cyflwyniad i staff ar waith estyn allan [fel rhan o gyfres o gyflwyniadau i'r Bwrdd] | Rhian Gibson | 22 Mawrth 2024 | Gohiriedig i ddyddiad hwyrach |
| Cynnwys manylion am feysydd gwaith y Llyfrgell yn Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr | Clerc | Ar waith | Ar waith |
| Bwrdd i dderbyn gwybodaeth pa weithgareddau sy'n cael eu hadnabod fel rhai statudol yn y siarter a pha rhai sydd ddim | Clerc | Aelodau wedi eu cyfeirio at y Siarter yr Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr | ✓ |
| Cynnwys datblygu sgiliau/trosglwyddo sgiliau/hyfforddiant/anwytho ar agenda Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant | Clerc | Ar agenda cyfarfod 2 Chwefror 2024 | ✓ |

**DIWEDD**